**Gwella Darpariaeth y Gymraeg mewn Modiwlau**

Pasiwyd gan: Y Senedd

Pasiwyd ar: 01/11/2021

**Statws: Rydym yn gweithio arno**

**Swyddog sy'n gyfrifol: Swyddog Diwylliant Cymreig a Llywydd UMCA**

**Crynodeb**

Gwella darpariaeth y Gymraeg a’r gwasanaeth cyfieithu ar gyfer modiwlau Cymraeg.

**Manylion**

Fel Llywydd UMCA a Swyddog Llesiant, un o fy mlaenoriaethau eleni yw gwella Darpariaeth y Gymraeg mewn Modiwlau. Food bynnag, Nid wy’n teimlo ei fod yn rhywbeth a all gael ei ddatrys mewn blwyddyn yn unig ac felly rwy’n credu ei bod hi’n werth ei wneud yn bolisi, fel bod Llywyddion UMCA yn y dyfodol yn gallu parhau gyda’r gwaith hyn ar ôl i mi adael. Y nod yw creu a hyrwyddo system adrodd ar-lein ar gyfer cyrsiau cyfrwng Cymraeg sydd â deunydd a darlithoedd uniaith Saesneg heb eu cyfieithu. Mynd ati i dynnu sylw at fodiwlau cyfrwng Cymraeg sydd â deunydd a darlithoedd uniaith Saesneg heb eu cyfieithu. Datblygu perthynas weithredol gadarn gyda Chynrychiolwyr Academaidd Cymraeg a hyrwyddo pwrpas eu rôl i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith. Hefyd trefnu cyfarfodydd gyda staff prifysgol berthnasol i esbonio anawsterau myfyrwyr sy’n gorfod cyfieithu darlithoedd mewn modiwlau a hysbysebwyd fel cyrsiau cyfrwng Cymraeg.

Cyflwynwyd gan: Mared Edwards

**Diweddariadau**

| **Camau a gymerwyd** | **Enw a Rôl** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| Mae Llywydd UMCA a’r Swyddog Diwylliant Cymru (2023-24), Elain, wedi codi hyn gyda’r Coleg Cymraeg mewn cyfarfod ac wrthi’n gweithio gyda’r staff priodol. Ar hyn o bryd, mae’n poeni y gallai’r Brifysgol leihau’r rhain wrth fynd yn ei blaen. | Elain (Swyddog Diwylliant Cymreig a Llywydd UMCA 2023-24) | Tachwedd 2023 |
| | | |

Mae croeso i chi gysylltu â ni os oes ddiddordeb mewn dysgu mwy ynghylch y polisi hwn.



**Cydlynydd Ymgyrchoedd a Democratiaeth**

Ash Sturrock

ais13@aber.ac.uk

llaisum@aber.ac.uk



**Swyddog Diwylliant Cymreig a Llywydd UMCA**

Elain Gwynedd

cymraegum@aber.ac.uk